# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Mai 2019

Amser: 14.30 - 15.54

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5441

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AC<br>Mandy Jones AC<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Alex Hadley (Dirprwy Glerc)<br>Manon George (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Cafwyd ymddiheuriad gan Suzy Davies AC ac roedd David Melding AC yn dirprwyo ar ei rhan. Cafwyd ymddiheuriad gan Dawn Bowden AC.

## 2 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(5)412 – Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

Trafododd y Pwyllgor y Rheoliadau a nododd fod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i gefnogi'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 3.1 SL(5)411 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

Trafododd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan y Llywydd at y Pwyllgor Cyllid: Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

### 4.2 Llythyr gan y Llywydd at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog Addysg: Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

### 4.3 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: SL(5)409 – Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2019

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

### 4.4 Llythyr gan y Llywydd at y Cadeirydd: Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 6 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) – materion allweddol

Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol sydd i'w cynnwys yn ei adroddiad.

## 7 Deddfu ar gyfer y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE: Diweddariad

Trafododd y Pwyllgor bapur, wedi'i ddiweddaru, ar ddeddfu ar gyfer y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE.